# YSGOL Y PRESELI

COFIA DDYSGU BYW

# Y GARREG LAS

# CYLCHLYTHYR HYDREF 2018 AUTUMN NEWSLETTER

**Ffôn: 01239 831406**

**Rhif Llinell Absenoldeb: 01239 831009**

**E-bost: swyddfa@ysgolypreseli.com**

# Gair gan y Pennaeth / Word from the Headtaecher

Croeso i Gylchlythyr cyntaf y flwyddyn academaidd hon. Mae'n flwyddyn arbennig eleni gan fod Ysgol y Preseli yn dathlu ei phen-blwydd yn 60oed. Braf oedd cael croesawu nifer o ddisgyblion cyntaf yr ysgol nôl i'r Preseli ar fore Sadwrn, Medi 8fed. Sefydlwyd yr ysgol yn 1958 gyda'r ysgol yn newid i fod yn ysgol ddwyieithog yn 1991. Ers y dyddiau cynnar hynny gyda 65 o ddisgyblion mae'r ysgol wedi mynd o nerth i nerth. Rydym yn ymfalchïo'n fawr yn y rôl mae Ysgol y Preseli wedi chwarae yn nhwf addysg Gymraeg yn Sir Benfro. Yn sgil llwyddiant ein hysgol agorwyd Ysgol Hafan y Môr yn Ninbych y Pysgod yn 2017 ac Ysgol Caer Elen, Hwlffordd yn 2018.

Bu'r 60 mlynedd diwethaf yn llewyrchus iawn i Ysgol y Preseli ac wrth iddi ddechrau cynllunio ar gyfer cyfnod newydd yn ei hanes, mae angen sicrhau bod ganddi ddyfodol llwyddiannus o'i blaen.

Llongyfarchiadau mawr i ddisgyblion safon uwch a TGAU ar eu llwyddiannau yn yr arholiadau allanol. O ganlyniad i berfformiad rhagorol ein disgyblion, Ysgol y Preseli yw'r unig ysgol uwchradd yn Sir Benfro i fod yn y chwarteil cyntaf o ran canlyniadau yng Nghyfnod Allweddol 4. Roedd canlyniadau TGAU yr ysgol eleni yr uchaf yn Nyfed a gyda'r gorau yng Nghymru. Nid ar chwarae bach mae hyn yn digwydd yn flynyddol. Diolch yn fawr iawn i bob aelod o staff am ddarparu safonau uchel o ddysgu ac addysgu ac am sicrhau bod ein disgyblion yn cael y cyfleoedd gorau i lwyddo. Anelwn at wella ein cyrhaeddiadau ymhellach eleni a sicrhau cynnydd parhaus yn ein perfformiad.

Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau darllen am ddigwyddiadau a gweithgareddau diweddaraf yr ysgol sy'n darparu blas i chi o gyflawniad a llwyddiannau academaidd ac allgyrsiol ein disgyblion.

Cynhelir Noson Agored Ysgol y Preseli ar Ddydd Llun, Tachwedd 12fed rhwng 5.00-8.00yh. Bydd cyfle i rieni a darpar ddisgyblion weld yr ysgol ar waith. Croeso cynnes i bawb.

Mwynhewch yr hanner tymor a diolch am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad yn ystod mis Medi a Hydref.

*Welcome to the first edition of the school newsletter Y Garreg Las of this academic year. It is a very special year for Ysgol y Preseli as it celebrates its 60th birthday. It was a pleasure to welcome back to school on Saturday, September 8th a number of the very first pupils to have attended Ysgol y Preseli. The school was opened in 1958 and it became an official bilingual school in 1991. Since its early days with 65 pupils the school has gone from strength to strength. We are very proud of the role the school has played in the success of Welsh Medium Education and the increasing demand has led to the opening of Ysgol Hafan y Môr in Tenby in 2017 and Ysgol Caer Elen Haverfordwest in 2018.*

*The past 60 years have been very prosperous for Ysgol y Preseli and as we prepare to plan for a new period in its history we need to guarantee that the school has a successful future.*

*Congratulations to those students who sat their A Levels and GCSE's on their excellent results. Ysgol y Preseli is the only secondary school in Pembrokeshire to have been benchmarked in the top quartile for all the key performance measures at key stage 4. We are all very proud of the pupils' achievements and I thank all the staff for their hardwork, dedication and commitment in providing teaching and learning of the highest quality and ensuring that pupils are given the best opportunities to succeed. We will continue to strive to build on our achievements and improve on our performance.*

*The Ysgol y Preseli Open Evening will be held on Monday, November 12th between 5.00-8.00pm. Parents and prospective pupils will be given the opportunity to see the school at work. A very warm welcome to everyone.*

*I hope you enjoy reading the latest news form the school which gives you a flavour of the pupils' academic and extra-curricular successes.*

*Enjoy the half-term break and thank you once again for you support and cooperation.*

*M L Davies*
*Pennaeth Gweithredol/Executive Headteacher*

# Blwyddyn 7 / Year 7

Ym myd chwaraeon mae dyfodol disglair gan sawl aelod o flwyddyn 7. Dyma rai o uchafbwyntiau'r haf. Yn y pwll, mae Dewi Thomas wedi cynrychioli Sir Benfro ac mae Owen Fletcher wedi cystadlu mewn sawl cystadleuaeth. Mae Morgan Jenkins hefyd wedi cystadlu mewn cystadlaethau athletau ledled Cymru ac enillodd Elain James wregys melyn yn carati. Mae William Hughes yn cynrychioli Academi Hwlffordd ac Ysgolion Sir Benfro ym myd pêl-droed ynghyd â Theo Tilley.

Yng nghystadleuaeth achub bywyd yn Whitesands enillodd Harry Walker dair medal. Cafodd 2il yn y ras hir; 3ydd yn y sprint a 3ydd yn y ras baneri. Hefyd, enillodd Megan Lewis y pumed safle allan o 38 wrth farchogaeth ceffylau yng Nghas-Gwent. Daeth Seth Dearden yn ail yng nghwad beicio yn Ninbych y Pysgod. Yn ogystal, enillodd Rhys Caygill yr ail safle yn Nhriathlon Aberystwyth allan o 24 o blant blwyddyn 6 a 7. Daeth Finley Bruce yn drydydd yn Nhriathlon Caerfyrddin i blant blwyddyn 7 ac enillodd y Regatta yng Nghei Newydd i blant o dan 12 oed. Hefyd, mae Megan Clewer-Evans wedi bod yn chwarae criced i Gymru eleni. Yn sicr, mae potensial mawr ym myd chwaraeon i flwyddyn 7. Enillodd Isaac Davies wrth arddangos gwartheg Holstein yn sioe Clunderwen a Chaerfyrddin ac mae Enfys Wheeler hefyd wedi ennill nifer o wobrau dros yr haf yn arddangos lloi. Pob lwc i'r ddau ohonynt yn Lloegr.

*Many year 7 students have a bright future in the world of sport. Here are some of the highlights from the Summer. In the pool Dewi Thomas has represented Pembrokeshire and Owen Fletcher has competed in many competitions. Morgan Jenkins has also competed in athletic competitions throughout Wales, whilst Elain James earned her yellow belt in karate. William Hughes has represented Haverfordwest Academy and Pembrokeshire schools in football along with Theo Tilley.*

*In a recent life-saving competition in Whitesands, Harry Walker earned three medals. He came 2nd in the long race, 3rd in the sprint and 3rd in the flag race. Also, Megan Lewis earned the 5th place out of 38 whilst show jumping in Chepstow. Seth Dearden came second in the quad biking in Tenby. Also Rhys Caygill came second in the Aberystwyth Triathlon for students from years 6 and 7. Finley Bruce came 3rd in the Carmarthen Triathlon for year 7 students and won the regatta in New Quay for children under 12 years. Also, Megan Clewer-Evans has represented Wales playing cricket this year. Our current year 7 most definitely have the potential to succeed in the sporting world. Isaac Davies won prizes in both the Clunderwen and Carmarthenshire shows exhibiting Holstein cattle and Enfys Wheeler has also won many prizes exhibiting calves. We wish them both good luck later this month in England.*

Dyma lun y fforwm o flwyddyn 7
*Pictured here are members of the year 7 Forum*

7.1 Manon, Isaac: 7.2 Chloe, Iwan;
7.3 Lily, Morgan 7.4 Carys, Curtis



Llongyfarchiadau i Marilla Evans ar ennill yn Eisteddfod yr Urdd wrth chwarae'r trwmpet. Hefyd llongyfarchiadau i Molly Walker-Arnold wrth ddawnsio gwerin a chreadigol yn yr Eisteddfod. Gyrrodd Sara Peregrine fideo a chael ei dewis am glyweliad ar gyfer The Voice Kids yng Nghaerdydd. Yn ogystal, gofynwyd iddi a'i chwaer, Ffion o flwyddyn 9, feirniadu Junior Eurovision rhai wythnosau nôl.

*Congratulations to Marilla Evans who won in the Urdd Eisteddfod whilst playing the trumpet. Also, congratulations to Molly Walker-Arnold who danced in both the creative and folk category at the Eisteddfod. Sara Peregrine sent a video of herself singing and was chosen to audition live in Cardiff for The Voice Kids. Also, she and her sister, Ffion from year 9, were asked to adjudicate in the Junior Eurovision recently.*

# Blwyddyn 8 / Year 8



**Disgybl Talentog -** Ers ei bod yn bum mlwydd oed mae Lisa Smart wedi bod yn cystadlu mewn sioeau ceffylau. Ers dechrau marchogaeth, breuddwyd Lisa oedd cael mynd i gystadlu yn Sioe Ceffyl Y Flwyddyn (Horse of the Year Show), ac eleni fe ddaeth y freuddwyd yn wir am yr ail dro. Llwyddodd Lisa i sicrhau eu lle yn Sioe Ceffyl Y Flwyddyn 2018, ar ôl iddi hi a'i cheffyl Friarly Guardsman, ennill eu dosbarth yn Sioe 'Stoneleigh' nôl yn Mis Awst yn erbyn 28 o gystadleuwyr eraill ac wedyn mynd ymlaen i ennill y Bencampwriaeth 'Mountain & Moorland' yn y sioe. Bydd Sioe Ceffyl Y Flwyddyn yn digwydd yn yr 'NEC Birmingham' ym Mis Hydref. Pob lwc i Lisa a Friarly Guardsman!

**A talented pupil -** Since the age of 5 years old Lisa Smart has been competing in horse shows. From the moment Lisa started horse-riding her dream was to go on and compete at the Horse of the Year Show. This dream has become a reality this year, for the second time. Lisa has secured a place at the Horse of the Year Show 2018 after she and her horse Friarly Guardsman, won her class at the Stoneleigh Show back in August against 28 fellow competitors before going on to win the Mountain & Moorland championship at the show. The Horse of the Year Show will be held at the NEC in Birmingham in October. Good luck to Lisa and Friarly Guardsman!



**Annabelle yn dangos ffitrwydd -** Llongyfarchiadau i Annabelle Sykes o flwyddyn 8 am fynd ar sialens seiclo/gwersylla yn Iwerddon dros bedwar diwrnod yn ystod gwyliau'r haf. Roedd y daith wedi cynnwys seiclo dros 120 o filltiroedd yn ystod y pedwar dydd. Am ffordd ddelfrydol o weld prydferthwch Iwerddon ar ei orau. Da iawn ti!

***Annabelle shows her fitness -*** *Congratulations to Annabelle Sykes from Year 8 who undertook a 4 day cycling/camping challenge trip in Ireland during the summer holidays. The trip consisted of Annabelle cycling over 120 miles during the four days. What an ideal way of seeing the beauty of Ireland at its best. Well done!*



**Jencyn yn taro'r nodyn cywir yn y byd cerdd-** Llongyfarchiadau i Jencyn o flwyddyn 8 am gael rhagoriaeth yn ei arholiadau ABRSM piano gradd 5 a llwyddo i gyrraedd gradd 3 yn ei arholiad telyn. Da iawn ti!

***Jencyn hitting the right note in the music world -*** *Congratulations to Jencyn from year 8 on gaining a Distinction grade in his ABRSM Grade 5 Piano exam recently and also succeeding to reach grade 3 in his harp exam. Well done!*



**Pêl-droedwyr Disglair -** Llongyfarchiadau i Tomos, Jay, Lewis, Seth ac Ieuan ar gael ei dewis i fod yn aelodau o garfan academi tîm pêl-droed Hwlffordd am y tymor. Yn ddiweddar fe wnaeth y bechgyn chwarae yn erbyn tîm academi Abertawe, yn anffodus colli 5 v 1 oedd y canlyniad, ond dyna brofiad gwych i'r bechgyn! Pob lwc am weddill y tymor.

***Talented Footballers —*** *Congratulations to Tomos, Jay, Lewis, Seth and Ieuan for being selected as part of the Haverfordwest Town football academy squad for the season. They recently played against the Swansea Academy team, unfortunately losing 5 – 1, but what a wonderful experience for the boys. Good luck for the rest of the season.*

# Blwyddyn 9 / Year 9



**CYNRYCHIOLI CYMRU**—Llongyfarchiadau enfawr i Evan Watts a gafodd ei ddewis i gynrychioli Cymru yn nhîm pêl droed dan 16 ym Moldova yn ddiweddar. Bu allan ym Moldova am wythnos gyda'r tîm, fe chwaraeodd yn safle'r gôl geidwad yn y ddwy gêm yn erbyn y gwrthwynebwyr.

***REPRESENTING WALES***—Huge congratulations to Evan Watts who was chosen to represent Wales in the under 16 football team in Moldova. Evan spent a week in Moldova with the Welsh Squad and was chosen to play as a goal keeper in the 2 games against their opponents. This is a major achievement as Evan has been chosen to represent the age group above as he is only 14, well done Evan!

**LLWYDDIANT AR Y TRAC**— Mae Ella Wintle yn athletwraig o fri ac wedi cael llwyddiant enfawr yn ystod tymor yr haf. Bu'n cystadlu ym Mhencampwriaethau Prydain o dan 15 a llwyddodd i ennill y fedal efydd. Yn ogystal â hyn cafodd y cyfle i gynrychioli Cymru yn Grangemouth ym Mhencampwriaethau Ysgolion Prydain - llwyddodd i ennill y fedal efydd yn y 100m o dan 17 mlwydd oed. Gan fod Ella yn un o'r merched cyflymaf yng Nghymru ar hyn o bryd cafodd y cyfle i fod yn rhan o'r tîm cyfnewid Cenedlaethol o dan 17. Ella oedd aelod ieuengaf y tim.



***SUCCESS ON THE TRACK***— Ella Wintle is an exceptional athlete who has had a summer to remember – one of the highlights was competing in the British Championships where she managed to take the bronze medal in the 300m under 15s. She was also selected to wear the Welsh vest this summer competing in the British School Championships in Grangemouth. This was a team competition with four countries competing against each other – Welsh Schools, English Schools, Irish Schools and Scottish Schools. Ella, the youngest member of the team first ran 12.70 in the guest 100m before running a leg of the wom-

**LLEISIO BARN**—Bu Efa Gardner yn cymryd rhan yng ngweithdy gyda Chomisiynydd Plant Cymru - Sally Holland yn Abertawe dros yr haf - cyfle i ddysgu am hawliau plant yng Nghymru a chael cyfle i leisio ei barn ar beth sydd yn bwysig iddi hi. Mae hyn wedi ysbrydoli Efa i wneud cais i fod yn rhan o Senedd Ieunectid Cymru. Am brofiad gwych!

***VOICING OPINIONS***—Efa Gardner took part in a workshop with the 'Children Commissioner for Wales' - Sally Holland. Efa had the opportunity to learn about the rights of Welsh children and had an opportunity to voice her concerns and opinions on various matters. This opportunity has inspired her to go on and put in an application to be a part of the Youth Senate Wales. Well done Efa!



**CERDDOR O FRI** - Llongyfarchiadau enfawr i Sam Gardner Williams ar ennill teilyngdod yng ngradd 5 yr ewffoniwm.

***TALENTED MUSICIAN***— Congratulations to Sam Gardner Williams on gaining Merit in his Grade 5 euphonium exam recently .



**OCTOPUSH**— Mae Ffion Barnikel bellach yn hyfforddi gyad thîm Octopush Prydain—arbennig!

***OCTOPUSH***—Ffion Barnikel has been selected to train with the British Octopush team. Excellent!

**PARTNERIAETH COLEG CEREDIGION** - Gwelir uchod criw o fechgyn sydd wedi bod yn mynychu Coleg Ceredigion yn ddiweddar. Mae'r bartneriaeth arbennig yma rhwng y coleg a'r ysgol yn cynnig profiadau unigryw i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau ymarferol yn ogystal â chael blas ar fywyd coleg.

***PARTERNSHIP WITH CARDIGAN COLLEGE***— Pictured above are the boys who are currently attending Cardigan College every fortnight as part of an initiative between the college and the school. The pupils are given the opportunity to develop practical skills as well as having a taster of life as a college student.

# Blwyddyn 10 / Year 10

Rhaid canmol y flwyddyn ar hanner tymor llwyddiannus, lle maent oll wedi ymgartrefu'n ôl yn yr ysgol ac yn mwynhau eu pynciau dewisol a chyrsiau TGAU.

Yn ddiweddar bu'r flwyddyn yn rhan o Ddiwrnod Iechyd, lle bu amryw o siaradwyr gwadd yn trafod amrywiaeth o faterion sy'n cwmpasu eu hiechyd personol nhw.  Cyfrannwyd yn aeddfed a phwrpasol o fewn y sesiynau a dysgwyd llawer gan y disgyblion.

Un disgybl sydd wedi profi tipyn o lwyddiant y tu hwnt i ffiniau'r ysgol yn ddiweddar yw Jasmine Owen.  Mae'n serennu ar hyn o bryd o fewn ei maes chwarae sef Badminton.

Dros wyliau'r haf mae Jasmine wedi bod yn gweithio'n galed yn ymarfer yn ddiflino er mwyn paratoi ei hun at amryw o gystadlaethau a hynny fel aelod benywaidd o dîm Cymru.  Tipyn o gamp! Nid yn unig ei bod yn chwarae fel aelod o dîm menywod Cymru ond mae'n fishi iawn yn paratoi at ei phrif uchelgais sef Gemau'r Gymanwlad.  Mae'n anodd credu ei bod yn gorfod paratoi pedair blynedd o flaen llaw! Dalier ati Jasmine.

Ymlaen â ni felly at hanner tymor arall lle'r edrychwn ymlaen at glywed am helyntion unigolion brwdfrydig a llewyrchus y flwyddyn.




*After settling back into school and enjoying their new GCSE courses, we must congratulate the year on a successful half term.*

*Recently, the year took part in a Health and Wellbeing Day where a number of guest speakers provided insightful and educational talks.  The pupils contributed to class discussions in a mature and purposeful manner.*

*One individual who is proving quite a handful on the court is Jasmine Owen.  She is a feisty player who has managed to achieve a lot of success in her sport of Badminton.*

*Over the summer holidays, Jasmine has been continuing to work hard to prepare herself for her competitions.  She should be so proud of herself as a member of the Welsh Women's team.  Not only is she a member of the Welsh Women's team but she is very busy preparing towards her main objective:the Commonwealth Games.  It's hard to believe that they have to prepare 4 years in advance!  Keep going Jasmine and we look forward to hearing more of your achievements.*

*Now onto the next half term as we look forward to hearing about more achievements and successes within the year group.*

# Blwyddyn 11 / Year 11


Mae dechrau'r flwyddyn academaidd wedi bod yn brysur iawn unwaith eto, gyda'n sylw eisoes wedi ei droi at gyfnod yr arholiadau. Mae'r disgyblion wedi derbyn canlyniadau positif iawn yn yr arholiadau haf, ac edrychant ymlaen at adeiladu ar y rhain yn yr arholiad Rhifedd. Yn ogystal mae'r adrannau Saesneg a Chymraeg wedi bod yn arholi elfennau llafar y cwrs, ac mae'r gwaith cwrs hefyd yn dwyn sylw. Yn bendant, mae pwysau ar ysgwyddau pawb, ac mae'n hollbwysig bod bob unigolyn yn teimlo eu bod yn gallu ymdopi gyda'r gofynion, a bod rhyddid ganddynt i siarad â rhywun os oes angen cymorth arnynt.

Mae bob dosbarth wedi ethol dau aelod i'w cynrychioli ar fforwm blwyddyn. Cyfle yw hwn i ddisgyblion leisio'u barn ar bob agwedd o fywyd ysgol ac wrth gwrs y prom diwedd blwyddyn! Y rhai a etholwyd gan eu cyfoedion oedd: Catrin Jones, Honour Carlisle, Daisy da Gama Howells, Gethin Greenhalgh, Thomas Elliot, Iwan Thomas, Steffan Wilson, Rhodri Lewis, Bethan Jones a Mia Perkins.

Yn dilyn creu'r fforwm, etholwyd dau aelod i gynrychioli'r flwyddyn ar Senedd yr Ysgol. Gwelwyd datblygiadau sy'n golygu bod gan y Senedd gryn ddylanwad bellach, a gall disgyblion annog newid mewn polisi a hyd yn oed chwarae rôl ym mhroses apwyntio staff. Y ddau ddisgybl y rhoddwyd y cyfrifoldeb iddynt ydy: Honour Carlisle a Thomas Elliot.

Llongyfarchiadau i Dafydd Brown am ei lwyddiant parhaus ym myd y triathlon, ac i Daisy de Gama Howells a ddewiswyd i fod yn rhan o ffilm sglefyrddio.



*It's another extremely busy start to the year with all eyes turned to the examination period already. The pupils have received extremely positive results from the summer exams and are now looking to build on these with the forthcoming Maths Numeracy exam. On top of this the English and Welsh departments have been examining the oral elements of the course and in other areas coursework is the priority. Certainly the pressure is on and it is important for every individual to be able to cope and speak to someone if they are struggling.*

*Each class has elected two members to represent the form on a year forum. This is an opportunity for pupils to be able to voice their opinions on all aspects of school life and of course the end of year prom! The class members elected by their peers were: Catrin Jones,Honour Carlisle, Daisy da Gama Howells, Gethin Greenhalgh, Thomas Elliot, Iwan Thomas, Steffan Wilson, Rhodri Lewis, Bethan Jones and Mia Perkins.*

*Following the creation of the forum, two members were then elected to represent the year on the School Senate. Things have certainly changed as the Senate carries a great deal of influence and can instigate policy change and even plays a part in staff appointments. The two pupils given this responsibility were: Honour Carlisle and Thomas Elliot.*

*Congratulations to Dafydd Brown for his continued excellence in the field of triathlon and Daisy de Gama Howells who was selected to be part of a skateboarding film.*

# 6ed Dosbarth / Sixth Form

Yn ystod y tymor mae Caleb Nicholas ac Efa Bowen wedi bod yn mynychu cyfarfodydd 'Youth Assembly' Sir Benfro er mwyn trafod materion yn ymwneud ag addysg a materion sydd yn effeithio ar fywydau pobl ifanc. Mae'r ddau wedi cyfarfod gyda Swyddogion Cyngor Sir Benfro er mwyn rhannu eu syniadau ynglyn ag addysg a gwasanaethau ar gyfer yr ifanc yn y sir.

*During the term Caleb Nicholas and Efa Bowen have attended 'Youth Assembly' meetings in order to discuss a range of issues regarding education and general issues affecting young people. Hannah and Thomas have also had an opportunity to meet with Officers from Pembrokeshire County Council to share ideas regarding education and children's services in the county.*



Bydd Caleb Nicholas, Elen John a Katie Lewis o Fl 13 yn teithio fel rhan o gynllun Urdd Gobaith Cymru i Batagonia dros hanner tymor. Bydd y tri disgybl yn cael cyfle i gynnal gweithgareddau diwylliannol ac i gael blas o fywyd yn y wladfa. Pob dymuniad da iddynt.

*Caleb Nicholas, Elen John and Katie Lewis (Year 13) will be travelling to Patagonia over half term as part of the Urdd cultural exchange programme. During the visit the three of them will be participating in a range of cultural activities and will be given an opportunity to embrace life in the region.*

Mae'r ysgol yn parhau i ymhyfrydu yn llwyddiannau Ashleigh Barnikel o Fl 13 sydd yn aelod o garfan Jiwdo Prydain Fawr.

*The school continues to celebrate Ashleigh Barnikel's success in the sport of Judo. Ashleigh has been selected to be a member of the British Judo squad.*

Yn ystod yr Haf treuliodd Cai Phillips a Ellie Palfrey wythnos yn datblygu eu sgiliau arweinyddiaeth yn Mannau Brycheiniog fel rhan o gynllun RYLA y Rotari. Hoffwn ddiolch i'r Clwb Rotari am eu parodrwydd i gefnogi ein disgyblion mewn cystadlaethau amrywiol a phrosiectau.

*During the summer Cai Phillips and Ellie Palfrey participated in the Rotary Youth Leadership Award scheme. The two pupils spent a week in the Brecon Beacons developing their leadership skills in a variety of situations. The school wishes to thank the Rotary Club for supporting our pupils in a range of competitions and projects.*

Ddydd Gwener, Hydref 26ain, teithiodd 34 o ddisgyblion o Flwyddyn 12 i Gynhadledd Rhwydwaith Seren ym Mharc y Scarlets, Llanelli. Yn ystod y diwrnod cafodd y disgyblion y cyfle i gyfranogi mewn cyfres o weithdai wedi eu darparu gan arbenigwyr mewn amryw o feysydd pynciol a galwedigaethol. Nod y diwrnod oedd i ysbrydoli a chynnig arweiniad i ddisgyblion o safbwynt dewis llwybrau gyrfaol posib. Teithiodd 4 disgybl o Fl 13 i'r gynhadledd gan weithredu fel Llysgenhadon.

*On Friday, October 26th 34 pupils from Year 12 travelled to Parc y Scarlets in Llanelli to participate in the Seren Network Conference. During the day pupils were given an opportunity to attend a series of workshops delivered by specialists from a range of subjects and vocations. The aim of the day was to provide guidance and to inspire pupils regarding potential future career pathways. In addition 4 pupils from Year 13 attended the conference as ambassadors.*

Cyflwynwyd y Prif Swyddogion gyda'u bathodynnau ar ddechrau'r tymor. Rydym yn dymuno'n dda i Efa, Caleb (Prif Ferch/Prif Fachgen) ac i Elen, Alaw, Tomos a Rhydian (Dirprwyon) ar gyfer y flwyddyn.


*The Head Prefects were presented with their badges at the beginning of term. We wish Efa and Caleb (Head Girl/ Boy) and Alaw, Elen, Tomos and Rhydian (Deputies) every success for the forthcoming year.*

# Cymraeg / Welsh

**BORE GYDA'R BEIRDD YNG NGHASTELL ABERTEIFI**

Hyfryd oedd cael dychwelyd wedi'r gwyliau ar gyfer blwyddyn academaidd newydd, a hyd yn hyn mae top y tŵr wedi bod yn brysur fel cwch gwenyn. Teithiodd criw o ddisgyblion blwyddyn deg i Gastell Aberteifi ar yr wythfed ar hugain o Fedi ar gyfer bore o weithdai llenyddol fel rhan o ddathliadau Gŵyl y Cynhaeaf eleni. Croesawyd y disgyblion i'r castell gan y Prifardd Ceri Wyn Jones a rhoddodd gyflwyniad pwrpasol i'r disgyblion ar werthfawrogi pwysigrwydd llenyddiaeth. Yn dilyn hyn daeth y Prifardd Rhys Iorwerth i drafod cynnwys ac arddull ei gerdd 'Y Ferch Wrth y Bar yng Nghlwb Ifor.' Fe lwyddodd i ddod â'r gerdd yn fyw i'r disgyblion gan ddatgelu sawl cyfrinach ddifyr ynghylch y sefyllfa sy'n cael ei disgrifio ynddi. Bydd ei sylwadau difyr, cofiadwy yn dipyn o help pan ddaw'r arholiad ymhen y flwyddyn yn sicr. Ymarfer a mireinio'r sgil o gymharu dwy gerdd oedd ar y fwydlen ar gyfer sesiwn ola'r bore o dan arweiniad Eurig Salisbury o Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertystwyth. Cafwyd trafodaeth ddifyr ar y gerdd "Walkers' Wood" gan Myrddin ap Dafydd a "Tresaith" gan Emyr Davies cyn edrych ar ffyrdd o gymharu'r cerddi yn effeithiol. Yn sicr, roedd y ddwy sesiwn yn hynod fuddiol ar gyfer mynd ati i baratoi at yr arholiad dan arweiniad yr athrawon nôl yn yr ysgol.









*We were glad to return to the top of the tower for a new academic year, and it's been a hive of activity already. Year 10 were fortunate enough to travel to Cardigan Castle on the twenty eighth of September to participate in a day of literature workshops which were part of the Harvest Festival – "Gwyl y Cynhaeaf" - celebrations. The pupils were welcomed to the castle by the bard Ceri Wyn Jones who gave a short presentation on the importance of studying literature. In the second session of the day the bard Rhys Iorwerth brought his poem 'Y Ferch Wrth y Bar yng Nghlwb Ifor' to life, giving the pupils further insight into the content, themes and style of his poem. During the last session the pupils were addressed by Eurig Salisbury and the focus of his address was improving exam skills. We enjoyed a discussion on "Walkers' Wood" by Myrddin ap Dafydd and "Tresaith" by Emyr Davies before attempting to compare the poems. Undoubtedly, these workshops will be great value to all those studying the Welsh Literature GCSE course.*

# Saesneg / English


*Year 11 pupils and the department were celebrating in the summer following the GCSE results. At a pass rate of 90%, the school had the highest amount of pupils achieving an English Language grade (A*-C) in the county!*

Yn dilyn canlyniadau'r haf, bu blwyddyn 11 a'r adran yn dathlu. Gyda 90% yn derbyn A*-C, llwyddodd yr ysgol i sicrhau canlyniadau gorau Saesneg Iaith yn yr sir!




*Congratulations to the **Shakespeare Schools Festival** cast on their workshop in the Mwldan Theatre, Cardigan. The cast had to perform a scene from the play Antony and Cleopatra and get feedback from professionally trained actors. They feel the workshop has really helped them prepare for the fast approaching big day! Following their performance in the Mwldan on the **13th of November**, the cast will be performing the play once again to the public at the school on the **21st of November**; tickets will be on sale from the 15th.*

Llongyfarchiadau i gast **Gŵyl Ysgolion Shakespeare** ar eu cyfranogiad mewn gweithdy yn Theatr y Mwldan, Aberteifi. Roedd rhaid i'r cast berfformio golygfa o'r ddrama *Antony and Cleopatra* a derbyn adborth gan actorion proffesiynol. Teimlwyd bod y gweithdy wir wedi helpu'r cast baratoi ar gyfer y diwrnod mawr! Yn dilyn y perfformiad yn y Torch Theatr ar y **13eg o Dachwedd**, bydd y cast yn perfformio unwaith eto i'r cyhoedd yn yr ysgol ar y **21ain o Dachwedd**; bydd tocynnau ar werth o'r 15fed.




*Our Year 13 students were fortunate enough to see the live broadcast of 'King Lear' in the Mwldan Theatre. They are studying the play as part of the Year 13 course and saw the iconic Sir Ian McKellan play King Lear.*

Roedd blwyddyn 13 yn ffodus iawn i weld Syr Ian McKellan yn chwarae Lear yn nrama Shakespeare 'King Lear' yn Theatr y Mwldan.





*Roedd criw Saesneg blwyddyn 11 Mrs Booth-Coates wrth eu bodd yn gwylio'r ddrama gerdd 'Blood Brothers' wrth baratoi at yr arholiad yn Theatr y Grand, Abertawe.*

Mrs Booth-Coates' year 11 class thoroughly enjoyed watching 'Blood Brothers' in the Grand Theatre, Swansea as preparation for their literature exam.

# Gwyddoniaeth / Science

**Gweithdai STEM Blwyddyn 9**
Diolch i Vince o gwmni EESW a ddaeth i'r ysgol yn ddiweddar i redeg gweithdy STEM gyda disgyblion Blwyddyn 9. Roedd y gweithdy yn gyfle i'r disgyblion gynllunio car trydanol, ac i arbrofi gyda dull o reoli'r pellter roedd y ceir yn gallu teithio. Roedd y disgyblion wedi mwynhau ac roedd tipyn o gystadleuaeth ymysg y grwpiau. Diolch yn fawr i Mr Duncan Richmond am drefnu'r gweithgaredd.

***Year 9 STEM Workshops***
*Thanks to Vince from EESW for running STEM workshops for our year 9 pupils. The workshop gave the pupils a chance to design and build an electric powered car, and to plan ways of controlling the distance the car could travel. The sessions were very popular, and there was a degree of competition as to who would design the best car. Thanks to Mr Duncan Richmond for organising the activity.*



**Canlyniadau'r Haf**
Llongyfarchiadau i bob un a safodd arholiadau TGAU, UG a A2 yn yr haf, yn enwedig i Hannah Matthews, Megan Matthews a Thomas Rees. Llwyddodd y tri yma i gyrraedd graddau arbennig yn enwedig yn Ffiseg. Mae'r tri bellach yn astudio cyrsiau gradd yn Rhydychen a Chaergrawnt.

**Summer Successes**
*Congratulations to all of the students who successfully sat GCSE, AS and A2 exams this summer. Special congratulations to Hannah Matthews, Megan Matthews and Thomas Rees who gained excellent grades, especially in Physics. The three are now studying for degrees in Oxford and Cambridge.*

**Croeso 'nol**
Braf oedd gweld un o gyn-ser yr adran wyddoniaeth, sef Elliot Mainwaring yn ôl yn yr ysgol i roi anerchiad i rai o ddisgyblion mwyaf abl yr ysgol ar wneud cais i goleg meddygol ac i brifysgolion Caergrawnt a Rhydychen. Diolch iddo.

***Welcome back***
*It was lovely to see one of the departments' star ex-pupils, Elliott Mainwaring back in the school. Elliot delivered an inspirational talk to some of the more able pupils on applying to Medical school and applying to Cambridge and Oxford Universities. We wish Elliott every success in the future.*



# Mathemateg / Mathematics

**Sialens Mathemateg Iau UKMT 2018**

Bu 20 o ddisgyblion blwyddyn 7 ac 8 yn cymryd rhan yn y sialens Mathemateg Iau ar y 26ain o Ebrill eleni.


- Enillodd 3 disgybl dystysgrif Arian sef Evan Watts, Samuel Gardener ac Efa Gardener o flwyddyn 8.
- Enillodd 3 disgybl dystysgrif Efydd sef Tim Chadwick a Daisy Whitfield o flwyddyn 7 a Brooke Evans-Harries o flwyddyn 8.

Cyflwynwyd tystysgrifau am y 'Gorau yn yr Ysgol' a'r 'Gorau yn y flwyddyn' i Evan Watts o flwyddyn 8 a thystysgrif 'Gorau yn y flwyddyn' i Tim Chadwick o flwyddyn 7.
Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion ar eu hymdrechion.

***Junior UKMT Mathematics Challenge 2018***

*20 year 7 and 8 pupils participated in the Junior Mathematics challenge on the 26th of April this year.*
*• 3 pupils won a Silver Certificate, namely Evan Watts, Samuel Gardener and Efa Gardener from year 8.*
*• 3 pupils won Bronze certificate, namely Tim Chadwick and Daisy Whitfield from year 7 and Brooke Evans-Harries from year 8.*
*Certificates for 'Best in School' and 'Best in the year' were presented to Evan Watts from year 8 and 'Best in the year' certificate to Tim Chadwick from year 7.*
*Congratulations to all the pupils on their efforts.*






**Taith Techniquest**

Ddydd Iau, 28ain o Fehefin, trefnwyd taith gan yr adran Fathemateg i ddisgyblion blwyddyn 7 i Techniquest yng Nghaerdydd. Yn ystod y dydd cafodd y disgyblion gyfle i ymweld â'r amgueddfa wyddonol/fathemategol. Cafwyd cyflwyniad bywiog yn y theatr ar bwysigrwydd mathemateg yn ein bywydau dyddiol a darparwyd gweithdy i hybu sgiliau datrys problem ein disgyblion. Trefnwyd y daith gan Mrs Carwen Morgan-Davies a bu Mrs Ann Evans, Mrs Meleri Beeden a Miss Teleri James yn cynorthwyo. Bu'n ddiwrnod hwylus tu hwnt a chafwyd adborth cadarnhaol gan y disgyblion a staff. Braf oedd derbyn canmoliaeth gan staff Techniquest am ymddygiad ac ymateb disgyblion Ysgol y Preseli. Diwrnod llwyddiannus iawn!



*On Thursday, June 28th, the Mathematics department arranged a trip for Year 7 pupils to visit Techniquest in Cardiff. During the day, pupils were given the opportunity to visit the scientific/ mathematical museum. There was a lively presentation in the theatre on the importance of mathematics in our daily lives and a workshop was provided to promote the problem solving skills of pupils. The visit was arranged by Mrs Carwen Morgan-Davies and Mrs Ann Evans, Mrs Meleri Beeden and Miss Teleri James accompanied the pupils on the trip. It was a very enjoyable day and positive feedback was received from the pupils and staff. It was also lovely to receive praise from Techniquest staff regarding the outstanding behavior of Ysgol y Preseli pupils. A very successful day!*

# Mathemateg / Mathematics

Ar Ddydd Mawrth, y trydydd o Orffennaf cafodd rhai disgyblion Abl a Thalentog Bl 10 gyfle i fynychu Cynhadledd undydd  - 'Mathemateg yw eich Dyfodol'  - ym Mhrifysgol Abertawe.  Bwriad y diwrnod oedd      dangos sut all Mathemateg fod yn hwyl ac yn heriol a thrwy ei astudio fel pwnc yn y chweched dosbarth sut all hyn arwain at gyrsiau prifysgol a gyrfaoedd cyffrous.


Trefnwyd cyfres o weithdai ar bynciau mathemategol hwylus a datblygedig yn ystod y dydd gan gynnwys dau sesiwn 'syrcas mathemategol' lle cafodd y myfyrwyr gyfle i gydweithio mewn grwpiau.  Diolch i Mrs Carwen Morgan-Davies am drefnu'r daith ac am gyd-deithio â'r disgyblion a'u cynorthwyo ar y diwrnod.

*On Tuesday, the 3rd of July a group of gifted and talented year 10 pupils were given the opportunity to attend a one-day conference - 'Mathematics is your Future' - at Swansea University.  The aim of the day was to show how Mathematics can be fun and challenging and by studying Mathematics as a subject in the sixth form, how it can lead to exciting university courses and a variety of careers.*

*A series of workshops were organised on fun and advanced mathematical subjects during the day including two 'mathematical circus' sessions where students had the opportunity to work together in groups.  Thank you to Mrs Carwen Morgan-Davies for organising the trip and for travelling with and supporting the pupils on the day.*







# Addysg Gorfforol / Physical Education



Llongyfarchiadau mawr i dîm athletau merched Bl 7 a 8 ar ddod yn bencampwyr ysgolion Cymru wrth ennill Cwpan NASUWT yn Aberhonddu. Dyma'r tro cyntaf erioed i dîm o'r ysgol i ennill y gystadleuaeth. Enillodd y tîm 4 o'r cystadlaethau ac fe dorodd y capten, Ella Wintle, y record yn y ras 300m gyda'r amser anhygoel o 42.1 eiliad! Roedd rhaid i'r merched ennill y ras gyfnewid i sicrhau'r fudugoliaeth, ac fe wnaethon nhw hyn mewn steil! Llongyfarchiadau hefyd i fechgyn Bl 7 a 8 ar ddod yn 3ydd yng nghystadleuaeth y Plât.

*Congratulations to the Year 7 and 8 girls' athletics team on becoming Welsh Schools Champions by winning the NASUWT Cup in Brecon. The girls are the first team ever from the school to win this competition. The girls won 4 of their events, with team captain, Ella Wintle, smashing the competition record in the 300m in a time of 42.1 seconds. The girls were one point behind going in to the final relay event, and they won it in style. Congratulations also to the boys Year 7 and 8 team gaining 3rd position in the Plate competition.*

**Pel-droed Merched 5 x 60**

Ar Orffennaf y 10fed yn Hwlffordd odd cystadleuaeth Pel Droed Chwaraeon Sir Benfro i ferched blynyddoedd 7 a 8. Bu 3 tim o Ysgol y Preseli yn cystadlu yn erbyn merched o ysgolion eraill o Sir Benfro. Bu'r merched yn ymarfer bob amser cinio Dydd Gwener gyda Elgan Vittle a Dafydd Vaughan. Thema'r twrnamaint oedd Cwpan y Byd. Roedd hawl gan y merched ddewis y gwledydd roeddent yn dymuno cynrychioli. Penderfyniad y merched oedd dewis Lloegr, Gwlad Belg a'r Aifft. Er na wnaeth y merched lwyddo i ennill y gystadleuaeth, roeddent i gyd wedi cyfrannu a chystadlu'n safonol.

***Girls Football 5 x 60***

*Three girls football teams took part in a Pembrokeshire Competition at the end of last term. The girsl were coached by Elgan Vittle and Dafydd Vaughan. The theme of the day was the World Cup. The girls were allowed to choose the countries they wished to represent. The Preseli girls chose England, Belgium and Egypt. Although unsuccessful on the day, the girls did themselves proud and displayed a healthy competitive attitude.*

**Dawns 5 x 60**

Llongyfarchiadau i'r dawnswyr fu'n cystadlu yng Nghaerdydd y tymor diwethaf. Roedd y safon yn uchel iawn gyda timau o dros Cymru yn cystadlu. Bu'r merched yn ymarfer yn gyson yn ystod eu horiau cinio gan gynllunio a threfnu'r ymarferion eu hunain. Tipyn o gamp a hwythau ond ym mlwyddyn 7. Da iawn ferched - Enfys Griffiths, Cadi Reynolds, Abby Errington-Evans, Jenna May Hughes, Sarah Likeman, Ella Forster, Anwen Knox.

**Dance 5 x 60**

Congratulations to the dancers who took part in a Dance Competition in Cardiff last term. The standard of dance was extremely high with schools from across Wales competing against each other. The year 7 girls rehearsed with enthusiasm during their lunch hours and are to be praised for their enthusiasm and diligence. Well done to Enfys Griffiths, Cadi Reynolds, Abby Errington-Evans, Jenna May Hughes, Sarah Likeman, Ella Forster, Anwen Knox.

# Addysg Gorfforol / Physical Education







Llongyfarchiadau i dimoedd tenis merched a bechgyn

Bl 7 a 8, 9 a 10 yr ysgol ar ennill cystadleuaeth Sir Benfro a mynd ymlaen i gystadlu yng nghanolfan David Lloyd yng Nghaerdydd.



*Congratulations to the girls and boys of Year 7 and 8, Year 9 and 10 tennis teams on winning the Pembrokeshire competition and going on to compete at the David Lloyd Academy in Cardiff.*

# Addysg Grefyddol / Religious Education

**AELOD NEWYDD YN YR ADRAN**

Llongyfarchiadau a chroeso cynnes i Miss Ffion Harries fel aelod o staff newydd yn yr Adran Addysg Grefyddol. Mi fydd yn gyfrifol am ddysgu pynciau Dyniaethau i ddisgyblion CA3 yn ogystal â dosbarthiadau TGAU. Dymuniadau gorau iddi yn ei gyrfa newydd a phob hwyl am y dyfodol.

***A NEW MEMBER OF STAFF IN THE DEPARTMENT***

*Congratulations and a warm welcome to Miss Ffion Harries as the newly appointed member of staff in the Religious Education Department. She will be responsible for teaching Humanities subjects to KS3 students as well as GCSE classes. Best wishes in her new career and all the best for the future.*

**CYRDDAU DIOLCHGARWCH**

Yn ystod wythnos gyntaf mis Hydref cynhaliwyd cyrddau Diolchgarwch blynyddol yr ysgol. Paratowyd y gwasanaeth gan Miss Glenys George, Pennaeth yr Adran. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Brif Swyddogion yr ysgol a chafwyd eitem gerddorol gan Ffion Thomas Bl 12. Cafwyd casgliad ariannol tuag at Ymchwil Motor Neurone. Diolch i bawb am eu cyfraniadau



***HARVEST THANKSGIVING SERVICES***

*During the first week of October the school held its annual Harvest Thanksgiving assemblies. The service was prepared by Miss Glenys George, Head of Department. The Head Prefects took part in the services and Ffion Thomas sang a solo. A collection was made in aid of Motor Neurone Research. Thank you all for your contributions.*

mnda
motor neurone disease
association



# Cerdd / Music



Bu Awen ac Annest allan yn yr Unol Daleithiau yn ystod gwyliau'r Haf, yn perfformio fel rhan o ensemble telynau Claire Jones. Mwynhaodd y ddwy sawl ymweliad diddorol a pherfformiadau a fydd yn aros yn y cof am byth iddynt. Profiad arbennig i'r ddwy!

*Awen and Annest were in the USA over the summer holidays performing as part of Claire Jones' Harp School. They enjoyed numerous excursions, and also took part in performances of the highest standard that will stay with them forever. A fantastic experience!*



Bu Carys a Ioan yn perfformio ar y marimba a'r delyn mewn cyngerdd arbennig a drefnwyd gan yr elusen Cerddor Ifanc Dyfed yn Nhrefdraeth yn ddiweddar.

*Carys and Ioan performed on the marimba and harp respectively at a special concert organized by the Dyfed Young Musician Charity in Newport recently.*





Ym mis Medi bu aelodau o grwpiau Cerdd y 6ed dosbarth mewn gweithdy cyfansoddi yn Hwlffordd. Cafwyd cyflwyniad gan y grŵp "The Hermes Experiment", a'r gyfansoddwraig broffesiynol Lynne Plowman. Y gamp nesaf i rhai o'r disgyblion fydd i gyfansoddi ar gyfer y grŵp yma, gyda Lynne yn ymweld â'r ysgol i weithio gyda'r disgyblion.

*During September members of the sixth form Music groups attended a composition workshop in Haverfordwest. "The Hermes Experiment" gave an introduction to their group, with composer Lynne Plowman also instructing. The next challenge will be to compose a piece for this specific group!*

Mae ymarferion wedi dechrau ar gyfer ein sioe eleni "Dyma Ni!". Cynhelir ymarferion o bob cân yn eu tro bob dydd.

*Rehearsals are under way for our show, "Dyma Ni!" to be staged in December.*

# Daearyddiaeth / Geography

Fel rhan o gwrs TGAU Daearyddiaeth, aeth y dosbarth am ddau ddiwrnod i gwblhau gwaith maes i gasglu data. Ar y diwrnod cyntaf, aethom o gwmpas tref Llanelli. Ein tasg yno oedd astudio sut oedd Parc Adwerthu Trostre wedi effeithio ar ganol y dref ers iddo agor yn 2008. Mi wnaethom gwblhau mapiau defnydd tir, cynnal holiaduron, a chynnal arolygon amgylcheddol. Roedd yn amlwg ar y diwrnod bod Llanelli yn dref clôn sydd yn cael ei dominyddu gan siopau cadwyn a siopau gwag ac wedi profi dirywiad ers agoriad Trostre.

Y diwrnod canlynol, ein ffocws oedd edrych ar effaith twristiaeth ar Ddinbych-y-Pysgod. Edrychom ar sut mae'r siopau a'r cyfleusterau wedi eu teilwra ar gyfer ymwelwyr ac os yw Dinbych-y-Pysgod yn medru cael ei ystyried fel safle pot-mêl. Cawsom ddau ddiwrnod diddorol a wnaeth wella dealltwriaeth y disgyblion o'r cwrs Daearyddiaeth a fydd yn werthfawr iawn i'w gwaith cwrs.




Strydoedd adwerthu tawel yn Llanelli

*The quiet retail streets of Llanelli*




*As a part of the GCSE Geography course, we undertook two days of fieldwork in order to collect data. On the first day, we visited the town of Llanelli. T he pupils' task was to study how Trostre Retail Park had affected the town centre since its opening in 2008. The pupils conducted land use surveys, environment quality assessments and completed questionnaires. It was obvious from visiting Llanelli that the town can be considered a clone town as it is dominated by chain or empty stores, suffering decline since the opening of Trostre.*

*The following day, our focus was to look at how Tenby is being affected by mass tourism. The pupils looked at how the town's amenities and shops were tailored towards visitors and if we can consider Tenby a honey-pot site. The two days were interesting and enjoyable and certainly helped the pupils with their understanding of the Geography course. This will be invaluable for their coursework.*



Tref Dinbych-y-Pysgod

*The town of Tenby*

# Drama

TYMOR YR ARHOLIADAU YMARFEROL

Mae tymor yr Hydref yn un prysur yn yr Adran Ddrama, gyda disgyblion TGAU ac Uwch Gyfrannol yn paratoi ar gyfer eu harholiadau ymarferol. Fe fydd y perfformiadau cyhoeddus yn cymryd lle yng nghanol mis Tachwedd (Dyddiadau i'w rhannu ar Facebook yr ysgol). Eleni mae disgyblion TGAU yn astudio theatr Emma Rice, Kneehigh Theatre a'r disgyblion ym Mlwyddyn 12 yn perfformio darnau mewn arddull Artaud, Stanislavski a Brecht.

***PRACTICAL EXAMS TERM***

*The Autumn term is a busy one for the Drama department as GCSE and AS students prepare for their practical exams. The public performances will take place in November (dates to be shared on the school Facebook page). This year, GCSE students are studying Emma Rice's Kneehigh Theatre and Year 12 performing in the styles of Artaud, Stanislavski and Brecht.*







University of South Wales
Prifysgol De Cymru

GWEITHDY PRIFYSGOL DE CYMRU

Gwnaeth disgyblion Blwyddyn 10 fwynhau gweithdy theatr gyda Phrifysgol De Cymru ar y 18fed o Hydref. Braf oedd croesawu cyn-ddisgybl, Gwern Phillips, yn ôl i'r ysgol wrth iddo fod yn rhan o arwain y gweithdy hwn.

***UNIVERSITY OF SOUTH WALES WORKSHOP***

*Year 10 students enjoyed taking part in a theatre workshop with the University of South Wales on the 18th of October. An added bonus was welcoming a past student of the department, Gwern Phillips, back to the school as part of the workshop team.*

**SIOE NADOLIG 10, 11, 12, 13 o Ragfyr**

Mae'r Adran Ddrama yn brysur yn cydweithio gyda'r Adran Gerdd ar y sioe Nadolig—DYMA NI! Fe fydd y sioe yn cyflwyno caneuon enwog o'r sioeau cerdd! Dilynwch Facebook yr ysgol i weld clipiau o'r disgyblion yn ymarfer.

***CHRISTMAS SHOW 10, 11, 12, 13 December***


*The Drama Department is busy working with the Music Department on our Christmas show—DYMA NI! Join us for a night at the musicals! Follow the school's Facebook page for updates.*

DYMA NI!

# Dylunio a Thechnoleg / Design and Technology

**Gwobrau Arloesodd 2018**

Ar y 1af o Hydref teithiodd digyblion y chweched dosbarth i Gaerdydd i ymweld ag arddangosfa Gwobrau Arloesol 2018. Braf oedd clywed ar ddiwedd tymor yr Haf bod nifer o ddisgyblion wedi cael eu henwebu ar gyfer y gwobrau yn dilyn llwyddiant yn eu gwaith Safon Uwch Dylunio a Thechnoleg. Hyfryd oedd gweld gwaith Iwan Lewis yn cael ei arddangos fel rhan o'r arddangosfa. Llongyfarchiadau Iwan.




***Innovation Awards 2018***

*On the 1st of October our sixth form pupils travelled to Cardiff to the 2018 Innovation Awards exhibition. It was wonderful to hear at the end of the summer term that many of our pupils had been nominated for the awards following their success in their A Level Design Technology coursework. It was fantastic to see that Iwan Lewis' work was chosen to be exhibited at the event. Congratulations Iwan.*

# Ieithoedd Tramor Modern / Modern Foreign Languages

Ddydd Gwener y 5ed o Hydref, dathlwyd Diwrnod Ieithoedd Ewrop yn yr adran ITM. Yn ystod y dydd roedd y disgyblion a'r staff yn gwisgo bathodynnau o wahahol ieithoedd. Roedd rhai o'r athrawon wedi ceisio defnyddio'r wahanol ieithoedd i gyfarch a ffarwelio a'u dosbarthiadau yn y gwersi hefyd!

Yn ystod amser cinio, cynnaliwyd lawer o weithgareddau yn yr adran ieithoedd:
Taro'r toro'
Cwisiau iaith
Gwahanol gemau iaith
Roedd disgyblion hefyd wedi mwynhau blas o Ffrainc yn y *Café Français*.



*On Friday the 5th October we celebrated European Day of Languages in the MFL department. During the day the pupils and staff who can speak another language apart from Welsh and English wore their badges with pride. Some of the teachers had a go at using different languages to greet and bid farewell to their classes!*

*During lunchtime a variety of activities were organised by the languages department:*
*Pinning the tail on the 'toro'*
*Quizzes*
*Lots of different language games.*
*Pupils also enjoyed a taste of France in the Café Français.*






Mae bob amser yn bleser i ddarllen am lwyddiannau cyn-ddisgyblion iaith yr ysgol.

Gwnaeth disgyblion CA4 a CA5 fwynhau ymweliad yn ddiweddar gan Alanna sydd yn astudio Ffrangeg ym Mharis. Buodd yn rhannu ei phrofiadau amrywiol am ei chyfnod fel myfyrwriag ym mhrifysgol Llundain ym Mharis a sut mae wedi setlo i fywyd yn y brifddinas.

*It is always a pleasure to read about the successes of past language pupils. KS4 and KS5 pupils recently enjoyed a visit from Alanna who is currently studying French in Paris. She recounted her vast experiences as a student in the London University in Paris and how she has settled into the Parisian life. Diolch Alanna!*

# Technoleg Gwybodaeth / Information Technology

Mae holl ddisgyblion yr Ysgol wedi llwyddo  i ddefnyddio HWB yn y dosbarth.  Mae disgyblion yn defnyddio HWB ar gyfer creu, rhannu a storio gwaith digidol.
Mae Hwb yn galluogi mynediad i amrywiaeth eang o adnoddau ac appiau digidol.
Mae mynediad gan y disgyblion  i Office 365 sydd yn cynnwys meddalwedd Word, Excel neu PowerPoint sydd am ddim.
Mae Onedrive yn rhan o becyn Hwb sydd yn storio dogfennau amrywiol ac unrhyw ddata digidol e.e. fideo,clip sain neu lun.  Mae'n bosib rhannu unrhyw waith digidol trwy ddefnyddio enw defnyddwyr HWB athrawon. Mae'r adran yn defnyddio Hwb i gyflwyno gwaith cartref.  Ni chanieteir disgyblion i ddefnyddio ffyn gof i drosgwlyddo gwaith i system yr Ysgol felly mae HWB yn  hanfodol ar gyfer cyflwyno gwaith digidol.

Mae'n bosib  cyflwyno  gwaith heb argraffu.

*All pupils are successfully using Hwb in the classroom.  Pupils are creating, sharing and storing digital work.  Pupils are able to access a wide range of resources and apps.  Pupils have access to Office 365 which includes Microsoft applications and Google classroom.  Onedrive is also included which can be used to store a range of documents as well as data in videos, sound files and pictures.  It is possible to share any digital work with teachers by using Hwb usernames.  The department only uses HWB to present homework.*



Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd rhan yng nghystadleuaeth Logo HWB.  Derbyniwyd sawl cais llwyddiannus o flwyddyn 9, ond llongyfarchiadau arbennig i Declan Smoothy am ddod yn fuddugol.

*Congratulations to everyone who took part in the Year 9 HWB logo competition recently.  There were several impressive entries but Declan Smoothy was the winner.  Well done Declan!*

Mae'r Clwb Codio i fl 7, 8 a 9 yn cwrdd bob amser Cinio dydd Iau.

*The coding club for years 7, 8 and 9 meets every Thursday lunch time.*

Mae Clwb TG a Te yn Cwrdd bob nos Fawrth, 3.30 hyd 5.00 o'r gloch.
Mae croeso i ddisgyblion blwyddyn 11 neu flwyddyn 12 Technoleg Gwybodaeth i fynychu'r Clwb hwn.

*Every Tuesday after school the IT and Tea club meet, 3.30 until 5.00pm.  We welcome all IT pupils from Year 11 or 12 to attend the Club.*

# Senedd Ysgol 2018-19 / School Senate 2018-19

Etholwyd cynrychiolwyr ar gyfer Senedd yr Ysgol eleni. Bydd Issac a Lily yn cynrychioli Blwyddyn 7, Tomos ac Elan yn cynrychioli Blwyddyn 8, Efa a Jona yn cynrychioli Blwyddyn 9, Megan a Gad yn cynrychioli Blwyddyn 10 a Thomas ac Honour yn cynrychioli Blwyddyn 11. Cadeirydd y Senedd eleni yw Caleb a'r Is Gadeirydd yw Efa. Elen yw'r Ysgrifennydd, Rhydian yw'r Trysorydd ac Alaw a Tomos sydd yn gyfrifol am Farchnata.

*The representatives for the School Senedd have been elected for the year. Isaac and Lily will represent Year 7, Tomos and Elan will represent Year 8, Efa and Jona will represent Year 9, Gad and Megan will represent Year 10 and Thomas and Honour will represent Year 11. The Chairperson for the Senedd this year is Caleb and Vice Chair is Efa. Elen has been elected as Secretary, Rhydian as Treasurer and Alaw and Tomos will be responsible for Marketing.*

Yn ystod cyfarfod cyntaf y Senedd eleni trafodwyd hawliau plant a gwaith y Cenhedloedd Unedig. Esboniodd Mr Dafydd Hughes pa mor allweddol yw 'Llais y Disgybl' yn Ysgol y Preseli o safbwynt gwella'r ysgol. Yn y gorffennol mae gwrando ar lais y disgybl wedi arwain at wella'r amgylchedd, y dysgu a'r addysgu a lles disgyblion yn yr ysgol. Byddwn yn parhau i sicrhau bod Llais y Disgybl yn cael gwrandawiad teg ac yn cael blaenoriaeth. Cafwyd cyflwyniad hefyd gan Mrs Mari Phillips (Swyddog Ieuenctid Ysgol y Preseli) ynglŷn â'i rôl a'r gefnogaeth sydd ar gael i ddisgyblion sydd yn poeni am unrhyw agwedd o fywyd ysgol. Mae aelodau'r Senedd wedi cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn gan lunio cynllun gweithredu pwrpasol.

*During the first meeting of the Senedd the members were given an opportunity to discuss the rights of the child and the work of the United Nations. Mr Dafydd Hughes emphasised the importance of 'Pupil Voice' in relation to improving the school. In the past, listening to the voice of the learner has been integral to improving the school environment, teaching and learning and pupil wellbeing at Ysgol y Preseli. We will ensure that Pupil Voice continues to be heard and continues to be a priority. As part of the meeting Mrs Mari Phillips (Youth Worker) explained her role within the school and referred to the support available to pupils who are worried about any aspect of school life. The Senedd have agreed upon priorities for the year and have structured a purposeful action plan.*



Aelodau'r Senedd Ysgol 2018-19:*School Senedd Members 2018-19*

# Canolfan Iaith / Welsh Language Centre

## Diwrnod Shwmae! / *Shwmae Day!*

Bu plant y Ganolfan yn brysur yn paratoi ar gyfer **Diwrnod Shwmae** yn ystod wythnos Hydref 15ed. Buont yn addurno bisgedi, gwneud baneri, bathodynnau a chardiau Shwmae arbennig er mwyn hyrwyddo a hybu Cymreictod a'u cyflwyno i athrawon a disgyblion eu hysgolion cynradd a rhai o ddisgyblion Ysgol y Preseli. Bu Dafydd o Menter Iaith hefyd yn gwneud gweithgareddau i hybu cerddoriaeth Cymraeg gyda'r plant. Llwyddodd i argyhoeddi'r disgyblion fod llawer o gerddoriaeth cŵl yn y Gymraeg a dyfarnwyd mai Yws Gwynedd a'r Welsh Whisperer oedd eu ffefrynnau ymysg y nifer o fandiau ac artistiaid y buont yn gwrando arnynt.

The Canolfan Iaith pupils were busy during the week beginning October 15th learning about the national day of **Shwmae**. The Shwmae day is celebrated to promote the idea of starting every conversation with **Shwmae**. The event aims to show that the Welsh language belongs to us all – fluent speakers, learners or those shy about their Welsh. The children decorated biscuits and made their own flags, badges and special Shwmae cards which they gave to the teachers and pupils of their own primary school and some of the pupils at Ysgol y Preseli.









## Her y Gymuned / *Community Challenge*




Yn ystod y tymor hwn mae pedair o ferched Blwyddyn 12 yn cynorthwyo yn y Ganolfan fel rhan o'u cyfraniad 30 awr o oriau gwirfoddol at 'gymuned'. Eisoes maent wedi bod yn cynorthwyo trwy gynllunio, paratoi a chyflwyno nifer o weithgareddau amrywiol e.e. helpu gyda dathliadau 'Shwmae', canu a recordio caneuon addas ar gyfer cael eu defnyddio gyda phlant ail-iaith, paratoi eitemau ar y Pwerpwynt a gweithgareddau coginio a chelf a chrefft.

During this term, four of Year 12 pupils have been helping out at the Ganolfan as part of their 30 hour contribution towards volunteering in the 'community'. Already this term, they have assisted by planning, preparing, helping and presenting various activities e.g. 'Shwmae' celebrations, singing and recording suitable songs for children beginning to learn Welsh, preparing items on Powerpoint, and cooking and arts and crafts acitivities.

# NOSON AGORED OPEN EVENING

# YSGOL Y PRESELI

*Croeso cynnes i bawb. Cyfle i chi weld yr ysgol ar waith*
*A warm welcome to all. An opportunity for you to see the school at work*

## NOS LUN 12fed O DACHWEDD 2018 5.00 – 8.00y.h

## *MONDAY, 12th of NOVEMBER 2018 5.00 – 8.00p.m*

**Canlyniadau gorau Sir Benfro unwaith eto.**
***Best results in Pembrokeshire once again.***

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â ni:
For further information, please contact us:

**Ffôn / Phone: 01239 831406**
**Ebost / Email: swyddfa@ysgolypreseli.com**

**/YsgolYPreseli** **@YsgolYPreseli**

# Friends of Ysgol y Preseli / Ffrindiau Ysgol y Preseli

**'CLWB 300' - Ffurflen Ymaelodi / Membership Form**

Gallwch ymaelodi â'r 'Clwb 300' am £11 y flwyddyn ac mae 6 gwobr o £30 yn cael eu dosbarthu bob tymor. Os hoffech fod yn aelod plîs llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd i'r ysgol gydag arian neu siec yn daladwy i '**Ffrindiau Ysgol y Preseli - Clwb 300**' neu nodwch eich bod wedi trefnu i drosglwyddo'r arian yn syth i'r cyfrif banc gan ddefnyddio'ch **enw llawn fel cyfeirnod.**

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth

Annual membership of the '300 club' costs £11 and there are 6 prizes of £30 per term. If you would like to become a member please fill out the form below and return it either with cash or a cheque for £11 made payable to '**Ffrindiau Ysgol y Preseli - Clwb 300**' or indicate that you have arranged to transfer the amount directly into the account using your **full name as the reference.**

Thank you very much for your support

---

## 'CLWB 300' Ffrindiau Ysgol Y Preseli

Enw/
Name:..........................................................................................................................

Cyfeiriad/Address:.........................................................................................................

...................................................................................................................................

Ffôn/Phone:.................................................. Ebost/Email.....................................................

*Ticiwch y blwch perthnasol / Please tick the relevant box:*

Amgaeaf £11 fel aelodaeth o'r clwb 300
I enclose the sum of £11 as membership of the '300 club' ☐

Rwyf wedi trefnu i drosglwyddo £11 i'r cyfrif a nodir isod
I have arranged to transfer the sum of £11 into the account detailed below ☐

Rwyf wedi trefnu i drosglwyddo £11 i'r cyfrif a nodir isod yn flynyddol
I have arranged to transfer the sum of £11 into the account detailed below each year ☐

**<u>Manylion cyfrif / Account details</u>**

Enw/name: Ffrindiau Ysgol y Preseli - Clwb 300 Banc/Bank: Lloyds, Community Account

Sort code: 30-91-65 Rhif cyfrif/Account No: 07283332

# Dyddiadau i'w cofio / Dates to remember

**Tachwedd 8fed / *November 8th***

Noson Rieni Bl 12/13 / *Parents Evening Yrs 12/13 (4.00-6.00yh/pm)*

**Tachwedd 12fed / *November 12th***

Noson Agored i flynyddoedd 4, 5 a 6 / *Open Evening for years 4, 5 a 6* (5.00-8.00yh/pm)

**Tachwedd 13eg / *November 13th***

Perfformiad Shakespeare For Schools, Theatr y Mwldan / *Performance of Shakespeare For Schools, Mwldan Theatre (7.00yh/pm)*

**Tachwedd 16eg / *November 16th***

Diwrnod Plant Mewn Angen / *Children in Need*

**Tachwedd 21ain / *November 21st***

Perfformiad Shakespeare For Schools, Theatr y Gromlech / *Performance of Shakespeare For Schools, Theatr y Gromlech (7.00yh/pm)*

**Tachwedd 22ain/ *November 22nd***

Ffair Nadolig / *Christmas Fayre (7.00yh/pm)*

**Tachwedd 23ain / *November 23rd***

Diwrnod HMS (Dim ysgol i ddisgyblion) / *Inset Training Day (School closed for pupils)*

***Tachwedd 26ain / November 26th***

Diwrnod HMS (Dim ysgol i ddisgyblion) / *Inset Training Day (School closed for pupils)*

**Tachwedd 27ain tan Rafgyr 3ydd / November 27th until December 3rd**

Arholiadau Mewnol Bl 7 –10 / *Internal Examinations Yr 7-10*

Ffug Arholiadau Bl 11, 12 a 13 / *Mock Examinations Yr 11, 12 a 13*

**Rhagfyr 17eg / *December 17th***

Diwrnod ABCh bl 7 / *Year 7 PSE Day*

**Rhagfyr 18fed / *December 18th***

Diwrnod ABCh bl 8 / *Year 8 PSE Day*

**Rhagfyr 19eg / *December 19th***

Diwrnod ABCh bl 9 / *Year 9 PSE Day*

**Rhagfyr 10fed/ 11eg/ 12fed / 13eg /**

***December 10th / 11th /12th / 13th***

Sioe Nadolig / *Christmas Show (7.00yh/pm)*

**Rhagfyr 14eg tan Rhagfyr 23ain /**

***December 14th until December 23rd***

Taith Sgio / Skiing Trip

**Rhagfyr 21ain / December 21st**

Sioe Dalent / *Talent Show*

*Adroddiadau allan i rieni / Reports distributed to parents*

**Diwedd y Tymor / *End of term***






*Nifer fawr o stondinau / Numerous stalls; Siôn Corn / Father Christmas;*

*Raffl / Raffle;    Ocsiwn Dawel / Silent Auction*

*Pris Mynediad / Admissions-  Oedolion / Adults : £1.00  Children/Plant:  Free!*

*Llywydd y Noson / President: Mrs Siân Bowen*